

DATGANIAD I'R WASG

Tachwedd 17 2021

SP Energy Networks yn cwblhau uwchraddiad £13 miliwn i'r rhwydwaith ym Môn er budd 38,000 o gartrefi a busnesau

Mae SP Energy Networks wedi cwblhau cynllun £13 miliwn i uwchraddio a chryfhau eu rhwydwaith ddosbarthu ar draws Ynys Môn er mwyn hybu dyfodol glanach a gwyrddach.

Fel rhan o'r cynllun, mae'r darparwyr rhwydwaith ynni wedi adeiladu dwy gylched newydd ac wedi gosod newidydd grid ychwanegol er mwyn atgyfnerthu'r rhwydwaith trydanol ar draws Ynys Môn.

Bydd y gylched 132,000 folt newydd a'r newidydd grid yn diogelu dyfodol y rhwydwaith ac yn sicrhau darpariaeth ynni gadarn i'r 38,000 o gartrefi a busnesau ar yr ynys.

Bydd yr uwchraddiad hefyd yn paratoi'r rhwydwaith at y defnydd cynyddol i'r dyfodol wrth i fwy o bobl droi at ddatrysiadau ynni gwyrdd megis cerbydau trydan a phympiau gwres. Mae hyn yn rhan allweddol o fwriad SP Energy Networks i arwain y ffordd tuag at y targed uchelgeisiol o allyriadau sero-net.

Yn ogystal â hyn, mae cylched newydd 33,000 folt wedi cael ei hadeiladu rhwng Llangaffo a Llanfairpwll er mwyn cryfhau ansawdd y ddarpariaeth.

Meddai Mark Sobczak, Rheolwr Cyffredinol 132kV SP Energy Networks: "Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn cryfhau'n sylweddol y rhwydwaith presennol ar Ynys Môn, a bydd yr uwchraddiad yn helpu i hwyluso twf a datblygiad ar draws yr ynys yn y dyfodol.

Rydym yn rhagweld y bydd gofynion ynni ac anghenion cynhyrchu yn cynyddu dros y blynyddoedd sydd i ddod, ac mae'r cynllun hwn yn sicrhau y gellir cefnogi datblygiadau'r dyfodol a datrysiadau ynni gwyrdd ym Môn.

Rwy'n falch o'r gwaith mae'r tîm wedi ei wneud i gyflawni'r cynllun, drwy gydweithio yn agos â'r gymuned leol er mwyn sicrhau fod eu gofynion yn cael eu diwallu gan amharu cyn lleied â phosib arnynt. Golyga hyn nad oes unrhyw un yn cael eu gadael ar ôl ar y daith tuag at allyriadau sero-net."

Mae'r wifren polyn tridant pren 132,000 folt newydd SP Energy Networks yn 750 medr o hyd ac yn ymestyn o'r ardal i'r gorllewin o'r Fali ar draws yr A55 i'r gogledd o Gaergeiliog. Mae 650 medr o geblau tanddaearol wedyn yn rhedeg tuag at ffordd Cymyran i'r is-orsaf bresennol, lle y gosodwyd newidydd grid ychwanegol er mwyn paratoi ar gyfer anghenion y dyfodol.

Mae'r gylched newydd 33,000 folt rhwng Llangaffo a Llanfairpwll yn 9.2km o hyd, gyda'r rhan sydd yn rhedeg o'r polyn pren yn 7.8km a'r rhan dan-ddaearol yn 1.4Km.

Fel rhan o'r gwaith, rydym wedi cael gwared â 340 medr o wifrau uwchben a saith polyn pren i'r gogledd o'r Fali.

Meddai'r Cyng. Gwilym O Jones o Gyngor Sir Ynys Môn: "Daeth tîm cynllunio SP Energy Networks ataf yn 2017 yn wreiddiol er mwyn tynnu fy sylw at y prosiect a'r bwriad. Ers hynny, rwyf wedi bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ganddynt, a dwi wedi gwirioni o weld y gwaith yn cael ei gwblhau, a fydd er budd cymunedau Ynys Môn."



Am wybodaeth bellach, ewch i spenergynetworks.co.uk

DIWEDD

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Fraser Clarke ar 07582 453 633 neu anfon e-bost at spnetworks@stripecommunications.com.

Nodyn i Olygyddion

SP Energy Networks:

Fel gweithredwyr dosbarthu a thrawsyrru rhwydwaith, mae SP Energy Networks (SPEN) yn sicrhau fod trydan yn llifo i dros 6m o gwsmeriaid ar draws 3.5m o gartrefi a busnesau ar draws Canolbarth a De'r Alban, Glannau Mersi, Gogledd a Chanolbarth Cymru a Gogledd Sir Amwythig. Rydym yn gwneud hyn gyda'n rhwydwaith o dros 110,000km o wifrau trydan a 30,000 o is-orsafoedd ar draws ein hardaloedd trwyddedig. Rydym hefyd yn buddsoddi oddeutu £7 biliwn yn y rhwydwaith drydan er mwyn creu dyfodol gwell a chynt ar gyfer ein cwsmeriaid a'n cymunedau.